| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 11 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar berfformiad yr Adran Amgylchedd |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Craig ab Iago |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

1.1 Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Amgylchedd, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

**2. Cefndir / Cyflwyniad**

2.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r prosiectau yng Nghynllun y Cyngor, ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr Adran ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.

2.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd 2025-26. Mae'r holl faterion wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

**3. Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

3.1 Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar bump o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-28, sef:

- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr;
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd;
- Gwastraff ac Ailgylchu;
- Teithio Llesol;
- Trafnidiaeth Gyhoeddus.

3.2 Rwy'n croesawu'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2025-26, ac amlinellir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer y pump blaenoriaeth ar gyfer y llynedd yn Atodiad A.

3.3 Mae adroddiad penodol am elfen o'r prosiect 'Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr' sef Cyfarwyddyd Erthygl 4 a arweinir gan yr Adran, i'w weld ar raglen y cyfarfod yma.

3.4 Yn ogystal, mae cwestiynau ychwanegol wedi eu cyflwyno gan y Pwyllgor am brosiect 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd' ac fe welir ymatebion i'r cwestiynau penodol yma isod:

- **Faint o gapasiti staffio sydd gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio er mwyn cyflawni'r prosiect?**
  Mae strwythur presennol y Tîm Polisi Cynllunio yn cynnwys Rheolwr, dau Arweinydd Tîm, dau Uwch Swyddog, un Swyddog ac un Swyddog Cefnogol.
  Yn sgil newidiadau staffio (ymddeoliad a symud swyddi), mae 1 swydd Arweinydd Tîm wedi ei llenwi yn fewnol yn ddiweddar sydd wedi gadael 1 swydd yn wag ar hyn o bryd, ac mae un swydd Arweinydd Tîm i'w llenwi. Rydym yn y broses o hysbysebu ar gyfer y swyddi sy'n wag ar hyn o bryd.

- **Beth yw'r risgiau o ran sefydlu'r Cynllun newydd?**
  Mae Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn amlinellu'r risgiau sydd wedi eu hadnabod o ran sefydlu'r Cynllun. Mae'r holl risgiau, effaith posib a mesurau lliniaru i'w gweld yn Atodiad C.

- **Beth yw'r amserlen ddiweddaraf ar gyfer cyflawni?**
  Mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn bwrw ymlaen, ond cydnabyddir y bydd angen ail-ymweld yr amserlen yn dilyn y proses recriwtio ddiweddaraf.
  Er hyn, mae'r bwriad yn parhau i symud ymlaen mor effeithlon â phosibl, gan sicrhau bod y Cynllun yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn bodloni'r gofynion statudol.

## 4. Gwaith dydd i ddydd yr Adran

4.1 Mae Atodiad B yn cynnwys y mesurau perfformiad ar gyfer Gwasanaethau ar draws yr Adran. Mae'r adroddiad cynhwysfawr yn Atodiad B yn cynnwys data am y cyfnod diweddaraf, ynghyd â chyd-destun ac esboniad pellach sy'n rhoi mwy o gig ar yr asgwrn ar gyfer perfformiad yr holl feysydd yn ystod 2025-26.

4.2 Mae'r Adran Amgylchedd yn cynnwys amrediad o feysydd a chyfrifoldebau, y mwyafrif ohonynt yn wasanaethau rheng-flaen sy'n darparu gwasanaethau allweddol i drigolion Gwynedd. Hoffwn ddiolch i staff yr Adran am eu hymrwymiad, ac rydw i'n hyderus fod y gwaith caled maent yn ei gyflawni yn cael ei werthfawrogi gan drigolion y sir.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran Amgylchedd, gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol a Rheolwyr Gwasanaeth.

**Atodiadau**

**Atodiad A:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad B:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran
**Atodiad C:** Rhestr risgiau – Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol